Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cynllun Archwilio 2015

# **Cyngor Gwynedd**

**Cyhoeddwyd:** Mehefin 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 355A2015

# Statws y ddogfen

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a wnaed/sydd i'w wneud yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynllun Archwilio 2015 | |
| Crynodeb | 4 |
| Archwilio ariannol | 4 |
| Ardystio hawliadau a ffurflenni grant | 8 |
| Gwaith arall a wnaed | 8 |
| Archwilio perfformiad | 10 |
| Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen | 13 |
| Atodiadau | |
| Priod gyfrifoldebau | 16 |
| Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol | 19 |

# Cynllun Archwilio 2015

## Crynodeb

**1.** Fel eich archwilydd allanol, fy amcan yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel Archwilydd Cyffredinol a'm rhwymedigaethau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llywodraeth Leol 1999, a'r Cod Ymarfer Archwilio, sef:

- archwilio eich datganiadau ariannol ac ardystio pa un a ydynt yn 'gywir a theg';
- asesu a ydych wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau;
- archwilio ac asesu a ydych wedi cyflawni eich dyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur; a
- chynnal astudiaethau i'm galluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd neu ar gyfer gwella trefniadau rheoli ariannol neu drefniadau rheoli eraill.

**2.** Diben y cynllun hwn yw nodi'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef, pryd yr ymgymerir ag ef, faint y bydd yn ei gostio a phwy fydd yn ymgymryd ag ef.

**3.** Nodir fy nghyfrifoldebau, ynghyd â chyfrifoldebau'r rheolwyr a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn Atodiad 1.


## Archwilio ariannol

**4.** Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'cywirdeb a'u tegwch'.

**5.** Rwyf hefyd yn ystyried a yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau ac yn adrodd drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â gofynion.

**6.** Mae'r gwaith archwilio a wneir gennyf er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i'm hasesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn galluogi i mi ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol gan roi sicrwydd ar yr un pryd ynglŷn â'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae tri cham i'm dull archwilio fel y nodir yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Fy null archwilio




**7.** Nodir y risgiau o gamddatganiadau perthnasol yr ystyriaf eu bod yn sylweddol ac y mae angen rhoi ystyriaeth archwilio arbennig iddynt o ganlyniad i hynny yn Arddangosyn 2, ynghyd â'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef i ymdrin â hwy.

Arddangosyn 2: Risgiau archwilio Ariannol Cyngor Gwynedd

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Byddwn yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol. |
| Mae risg o gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw ac, fel y cyfryw, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.26-27]. | Byddwn yn adolygu'r cynllun ac yn profi gweithrediad rheolaethau yn y systemau sy'n ymwneud â'r canlynol:<br>• rheoli'r trysorlys;<br>• incwm grant; a<br>• ffynonellau eraill o incwm. |
| Risg nad yw systemau a rheolaethau ariannol allweddol y Cyngor wedi'u cynllunio nac yn gweithredu yn effeithiol i atal a chanfod camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. | Byddwn yn adolygu'r rheolaethau allweddol sy'n helpu i lunio cyfrifon cywir, gan gynnwys y brif system gyfrifyddu, gweithdrefnau cau'r cyfrifon a lle bo angen, systemau ategol, megis dyledwyr, credydwyr, y gyflogres, rheoli'r trysorlys, treth gyngor ac asedau sefydlog. |

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| Risgiau sy'n gysylltiedig â pharatoi'r cyfrifon:<br>• Mae risg y caiff y datganiadau ariannol eu camddatgan yn sylweddol oherwydd gwall neu am fod trafodion, balansau a datgeliadau wedi eu hepgor.<br>• Mae risg y caiff y datganiadau ariannol eu camddatgan yn sylweddol oherwydd y broses o ailbrisio asedau anghyfredol.<br>• Mae risg nad yw'r data am aelodau a ddarperir i'r actiwari i'w defnyddio wrth baratoi'r datgeliadau blynyddol o dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 (Buddiannau Cyflogeion) yn ddigon cadarn.<br>• Mae risg nad yw pecynnau ymadael a delir gan y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cod a Pholisi'r Cyngor. Ystyrir bod taliadau o'r fath yn sensitif a pherthnasol. | • Byddwn yn cynnal rhaglen o brofion archwilio er mwyn mynd i'r afael â risgiau a nodwyd fel rhan o'n gwaith cynllunio ac adolygu'r datganiadau ariannol drafft.<br>• Byddwn yn asesu'r broses ailbrisio gan sicrhau ei bod wedi'i chynnal yn unol â pholisïau cyfrifyddu a'i bod, ym mhob ffordd berthnasol, wedi'i hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol.<br>• Byddwn yn adolygu'r ymarfer a gynhaliwyd gan staff y Cyngor i adolygu cywirdeb y data a ddarperir i'r actiwari ac yn ystyried p'un a allwn gael sicrwydd ynghylch eu cywirdeb.<br>• Byddwn yn ystyried y driniaeth gyfrifyddu a'r broses o ddatgelu pecynnau gadael. |
| Fel rhan o'r broses o baratoi'r Datganiad Cyfrifon, amcangyfrifir nifer o ffigurau cyfrifyddu megis darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau'r Cyngor (e.e. costau tirlenwi, hawliadau cyflog, anghydfodau cyfreithiol). | Byddwn yn adolygu'r canlynol:<br>• yr asesiad blynyddol a wnaed gan swyddogion o'r sail y gwneir amcangyfrifon arni a'r sail y cânt eu hadolygu arni yn unol â'r wybodaeth ddiweddaraf; a<br>• dogfennaeth a ddelir i ategu amcangyfrifon y daethpwyd iddynt a dyfarniadau a wnaed, gan gyfeirio at bapurau a ddarparwyd i'w hategu.<br>Byddwn hefyd yn sicrhau y caiff gofynion cyfrifyddu a datgelu priodol eu cynnwys o fewn y datganiadau ariannol. |
| Rydym wedi nodi nifer o ddatgeliadau fel datgeliadau o natur berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys datgelu Partïon Cysylltiedig a'r nodyn ar Gydnabyddiaeth. | Byddaf yn cynllunio profion manwl i gael y sicrwydd gofynnol na chamddatganwyd y datgeliadau a nodwyd yn ddatgeliadau perthnasol. |

**8.** Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ar gywirdeb a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig, ond mabwysiadaf gysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rheini a allai gamarwain y sawl sy'n darllen

y cyfrifon. Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio cyn cwblhau'r archwiliad.

**9.** At ddibenion adrodd, byddaf yn ymdrin ag unrhyw gamddatganiadau sydd islaw lefel 'ddibwys' (pump y cant o berthnasedd neu £100,000, pa un bynnag sydd isaf) fel materion nad oes angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt.

**10.** Mae fy ffioedd yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- bod y wybodaeth a ddarperir i ategu'r datganiadau ariannol yn amserol, o'r ansawdd disgwyliedig a'i bod wedi'i hadolygu at ddibenion sicrwydd ansawdd;
- y bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- bod yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith gennych i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a anfonir ataf; a
- bod rhaglen waith arfaethedig y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau a bod y rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

**11.** Yn ogystal â'm cyfrifoldebau o ran archwilio datganiadau ariannol statudol Cyngor Gwynedd a nodwyd uchod, mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio datganiad a gyflwynir i Lywodraeth Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am Gyngor Gwynedd i gefnogi'r gwaith o baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.

**12.** Rwyf hefyd yn gyfrifol am archwilio cyfrifon cronfa bensiwn Gwynedd.

**13.** Hoffwn dynnu eich sylw at y meysydd risg a nodir yn Arddangosyn 3 a nodwyd gennyf mewn perthynas â'r gronfa bensiwn ynghyd â'r gwaith rwyf yn bwriadu ymgymryd ag ef er mwyn ymdrin â hwy.

### Arddangosyn 3: Risgiau archwilio ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
| --- | --- |
| Yn dilyn mater a nodwyd ac y cyflwynwyd adroddiad arno mewn blynyddoedd blaenorol, mae risg nad yw'r cofnodion aelodaeth a ddelir yn y system gweinyddu pensiynau yn gyfredol gan nad yw rhai cyrff Cyflogwyr bob amser yn darparu gwybodaeth briodol yn amserol. Rydym yn ymwybodol bod yr adran gweinyddu pensiynau wedi gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn er mwyn ymdrin â'r gwahaniaethau hyn. | Byddwn yn adolygu'r broses a ddefnyddiwyd gan yr adran gweinyddu pensiynau i weithio gyda Chyrff Cyflogwyr i sicrhau bod y data wedi'u diweddaru. |
| Penodir rheolwyr buddsoddi allanol i reoli'r portffolio buddsoddi. Bydd eu systemau a'u cofnodion eu hunain yn creu nodiadau cyfrifon a wneir i gyfrif y Gronfa Bensiwn a'r datganiad o asedau net. | Cawn gadarnhad uniongyrchol gan reolwyr y gronfa ynghylch balansau buddsoddi diwedd y flwyddyn, a byddwn yn ystyried a yw adroddiadau rheolaeth fewnol y rheolwyr buddsoddi yn nodi risgiau penodol i'r balansau hyn. |

# Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

**14.** Gofynnwyd i mi wneud gwaith ardystio ar hawliadau a ffurflenni grant Cyngor Gwynedd. Yn 2014-15, disgwyliaf archwilio rhwng 20 a 25 o hawliadau, y bydd nifer ohonynt yn gymhleth eu natur, sef; hawliadau Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor; Ffurflenni Pensiynau Athrawon; hawliadau grant Cymunedau yn Gyntaf; ac amrywiol hawliadau i Gronfeydd Ewropeaidd.

**15.** Nodir amcangyfrif o'm ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn yn Arddangosyn 9.

## Materion cyffredinol a nodwyd

**16.** Mae Arddangosyn 4 yn crynhoi'r materion pwysicaf a/neu'r materion a gododd dro ar ôl tro wrth wneud gwaith ardystio grantiau yn 2013-14.

Arddangosyn 4: Materion cyffredinol sy'n ymwneud ag ardystio hawliadau a ffurflenni grant

| **Hawliadau a ffurflenni grant a amodwyd yn 2013-14** |
|---|
| Yn 2013-14, gwnaethom archwilio 27 o hawliadau a ffurflenni, y cafodd 19 ohonynt eu hamodi. Roedd y materion allweddol a achosodd benderfyniadau amodol fel a ganlyn:<br>• diffyg cydymffurfiaeth â thelerau ac amodau'r grant gan arwain at wariant anghymwys;<br>• dim digon o dystiolaeth ategol i ategu'r gwariant a gynhwyswyd yn yr hawliadau; a<br>• diffyg cydymffurfiaeth â Rheolau Gweithdrefnau Contract y Cyngor. |
| **Effeithiolrwydd trefniadau cydgysylltu grantiau** |
| O ystyried y gyfradd uchel o hawliadau a amodwyd (70 y cant), byddai o fudd i'r Cyngor wella ei drefniadau cyffredinol ar gyfer paratoi ac ardystio hawliadau.<br>Yn arbennig, dylai'r Cyngor ystyried y canlynol:<br>• defnydd gorfodol o restr gyfeirio grantiau er mwyn sicrhau bod yr hawliad wedi'i ategu gan gofnodion cyfrifyddu a thystiolaeth ategol briodol; a<br>• rhoi hyfforddiant ar ei reolau gweithdrefnau contract er mwyn sicrhau bod staff sy'n trefnu contractau sy'n ymwneud â chyllid grant yn cydymffurfio â'r rheolau. |

# Gwaith arall a wnaed

**17.** Rwyf hefyd yn gyfrifol am archwilio tri Cydbwyllgor y mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel yr awdurdod cynnal ar eu cyfer (GwE, y Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig a'r Cydbwyllgor Polisi Cynllunio) a'r pedwar harbwr (Pwllheli, Abermo, Porthmadog ac Aberdyfi) y mae'r Cyngor yn gweithredu fel Awdurdod Harbwr ar eu cyfer.

**18.** Hoffwn dynnu eich sylw at y maes risg a nodir yn Arddangosyn 5 a nodwyd gennyf mewn perthynas â Chydbwyllgor GwE ynghyd â'r gwaith rwyf yn bwriadu ymgymryd ag ef er mwyn ymdrin ag ef.

Arddangosyn 5: Risg archwilio Ariannol Cydbwyllgor GwE

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Incwm a gwariant grantiau**<br>Mae'r Pwyllgor yn cael arian grant sylweddol, y caiff y rhan fwyaf ohono ei ddosbarthu i awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae risg bod y datganiadau ariannol yn cynnwys neu'n eithrio'r arian grant hwn yn amhriodol gan y bydd angen i'r Pwyllgor asesu p'un a yw'n gweithredu fel asiant neu brif gorff. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu polisi cydnabyddiaeth y Pwyllgor ar gyfer incwm a gwariant grantiau a fydd yn cynnwys adolygiad o ran p'un a yw'r Pwyllgor yn gweithredu fel prif gorff neu asiant. |

**19.** Nid oes unrhyw risgiau penodol yr hoffwn dynnu eich sylw atynt mewn perthynas â'r Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig na'r Cydbwyllgor Polisi Cynllunio.

**20.** Hoffwn dynnu eich sylw at y maes risg a nodir yn Arddangosyn 6 a nodwyd gennyf mewn perthynas â'r Awdurdod Harbwr ynghyd â'r gwaith rwyf yn bwriadu ymgymryd ag ef er mwyn ymdrin ag ef.

Arddangosyn 6: Risgiau archwilio Ariannol yr Awdurdod Harbwr

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| Mae adran 42(1) o Ddeddf Harbyrau 1964 yn nodi ei bod yn ofynnol i ymgymeriadau harbwr statudol, megis awdurdodau lleol sydd â swyddogaethau cynnal, gwella neu reoli harbwr ('awdurdodau harbwr') lunio datganiad cyfrifon blynyddol mewn perthynas â gweithgareddau harbwr. Mae'r Cyngor wedi bodloni'r gofyniad hwn drwy gynnwys gweithgareddau'r harbwr yn ei brif ddatganiadau ariannol. Fodd bynnag, cawsom ein hysbysu nad yw hyn yn bodloni gofynion adran 42(1) ac felly mae angen datganiad cyfrifon blynyddol annibynnol sy'n cyfeirio at weithgareddau harbwr yn unig. Felly dyma'r flwyddyn gyntaf o lunio ac archwilio datganiad o'r fath. | Gan fod y gweithgareddau ariannol islaw'r trothwy ariannol o £2.5 miliwn fel y'i nodir yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, bydd y ffurflen flynyddol yn destun archwiliad sicrwydd cyfyngedig. |

**21.** Bydd fy nhîm yn cynnal archwiliad o'r cyfrifon hyn ar fy rhan yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt gyda Chyngor Gwynedd.

**22.** Nodir fy ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn yn Arddangosyn 9.

# Archwilio perfformiad

**23.** Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal asesiad gwella ar gyfer pob awdurdod gwella bob blwyddyn, er mwyn pennu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Rhaid i mi hefyd gynnal archwiliadau i nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur. Mae fy ngwaith asesu gwelliant, ynghyd â'm gwaith ar faterion ariannol, hefyd yn fy nghynorthwyo i gyflawni fy nghyfrifoldeb i fodloni fy hun bod y corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

**24.** Er mwyn cyflawni gofynion y Mesur, rwyf yn cynnal asesiadau corfforaethol rheolaidd o bob awdurdod gwella. Ers 2013-14, rwyf wedi ymgymryd â'r rhaglen hon o asesiadau corfforaethol ar sail gylchol. Ar hyn o bryd, rwyf wedi cytuno â Llywodraeth Cymru y gallaf ddefnyddio'r grant a gaf gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r asesiad corfforaethol. Mae hyn yn golygu, yn ogystal ag asesiad gwella a gwaith archwilio a ariennir gan ffi, y bydd pob awdurdod yn cael asesiad corfforaethol manwl unwaith yn ystod cyfnod o bedair blynedd. Yn y cyfamser, byddaf yn cynnal trosolwg llai manwl o ddatblygiadau a'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod. Os daw unrhyw faterion o bryder neu faterion â blaenoriaeth i'r amlwg, mae gennyf yr hyblygrwydd i gynnal asesiadau corfforaethol yn amlach.

**25.** Yn ogystal â'm rhaglen o waith archwilio ac asesu o dan y Mesur, rwyf yn ymgymryd â rhaglen o astudiaethau llywodraeth leol fel sy'n ofynnol o dan adrannau 41 a 42 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ni chaiff y gwaith hwn ei gynnwys o fewn y ffi archwilio perfformiad lleol, ond fe'i cynhwysir o fewn amcangyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru.

**26.** Nodaf yn yr adran hon y rhaglen 12 mis o waith archwilio perfformiad i'w gyflawni yng Nghyngor Gwynedd. Pennwyd cynnwys y rhaglen drwy ystyried y risgiau a'r heriau sy'n wynebu Cyngor Gwynedd, graddau'r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd, gan gynnwys gwybodaeth gan gyrff adolygu allanol eraill, yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth sydd ar gael gan gynnwys prosesau adolygu a gwerthuso Cyngor Gwynedd ei hun.

**27.** Nodir elfennau fy ngwaith archwilio perfformiad yn Arddangosyn 7 ac fe'u cynlluniwyd er mwyn helpu i gyflawni'r amcanion lefel uchel a nodwyd yn ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2013-2016 (http://www.archwilio.cymru/cy/cyhoeddi/swyddfa-archwilio-cymru-strategaeth-gorfforaethol-2013-2016).

Arddangosyn 7: Elfennau o'm gwaith archwilio perfformiad




**28.** Ceir crynodeb o'r gwaith perfformiad y bwriadaf ei wneud yn Arddangosyn 8 ar dudalen 12.

Arddangosyn 8: Cynnwys fy rhaglen o waith archwilio perfformiad ar gyfer 2015-16

| | Prosiectau penodol |
|---|---|
| **Archwiliad ac asesiad gwella** | **Archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor**<br>Archwiliad o'r gallu i gyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi cynllun gwella.<br><br>**Archwiliad o Asesiad o Berfformiad y Cyngor**<br>Archwiliad o'r gallu i gyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad.<br><br>**Adolygiad o drefniadau rheoli ariannol**<br>Rhagor o waith ar drefniadau rheoli ariannol yn dilyn ein hadolygiad o 2014-2015, gan edrych ymlaen at gynigion ar gyfer pennu cyllideb ac arbedion yn 2016-17. Bydd ffocws hefyd ar sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn, polisi a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn.<br><br>**Adolygiadau llywodraethu**<br>1. Craffu - mewn cydweithrediad ag Estyn.<br>2. Adnoddau Dynol a Rheoli Asedau.<br>3. Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a chanlyniadau dau brif brosiect gwella llywodraethu'r Cyngor - i) Ffordd Gwynedd a ii) y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu.<br><br>**Adolygiadau rheoli perfformiad**<br>1. Meincnodi costau gwasanaethau cymdeithasol yn erbyn perfformiad - mewn cydweithrediad ag AGGCC.<br>2. Cyflawniad/perfformiad yn erbyn amcan gwella'r Cyngor i 'hyrwyddo'r Gymraeg'. |
| **Gwaith dilynol** | Byddaf yn parhau i ganolbwyntio ar asesu'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu argymhellion o'm gwaith blaenorol. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddaf yn ceisio sicrwydd bod gan Gyngor Gwynedd brosesau corfforaethol priodol ar waith i ymateb i'm hadroddiadau, olrhain yr hyn a wneir i roi fy argymhellion ar waith a chyflwyno adroddiadau ar hyn i'r pwyllgor priodol. |
| **Astudiaethau llywodraeth leol** | 1. Trefniadau'r Cyngor ar gyfer ariannu gwasanaethau trydydd sector.<br>2. Dull gweithredu strategol cynghorau o ran cynhyrchu incwm a chodi tâl am wasanaethau.<br>3. Effeithiolrwydd partneriaethau diogelwch cymunedol lleol. |
| **Arfer da** | Yn unol â'r ymrwymiad i nodi a rhannu arfer da, byddaf yn parhau i gynnal seminarau dysgu ar y cyd, nodi astudiaethau achos perthnasol a chanolbwyntio ar nodi a hyrwyddo arfer effeithiol. |

# Y ffi, y tîm archwilio a’r amserlen

## Ffi

**29.** Nodir eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2015 yn Arddangosyn 9. Nid oes unrhyw newid i’r ffigur hwn o gymharu â’r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad o archwiliad blynyddol 2014.

Arddangosyn 9: Ffi archwilio

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[1] | Y ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|---|---|
| **Gwaith archwilio ariannol[1]** | **£180,450** | **£180,450** |
| **Gwaith archwilio perfformiad:[2]** | | |
| • Gwaith archwilio ac asesu gwelliant a gwaith dilynol | £99,198 | £99,198 |
| Cyfanswm y gwaith archwilio perfformiad | **£99,198** | **£99,198** |
| **Cyfanswm y ffi** | **£279,648** | **£279,648** |
| **Gwaith ardystio grantiau[3]** | **£110,000 - £125,000** | **£117,000** |
| **Gwaith archwilio ariannol arall** | | |
| Cronfa Bensiwn Gwynedd | £32,594 | £32,594 |
| Cydbwyllgor GwE | £7,590 | £6,125 |
| Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig[4] | £920[5] | £6,125 |
| Cydbwyllgor Polisi Cynllunio[4] | £920[5] | £2,993 |
| Awdurdodau Harbwr[4] | £650 | – |
| **Cyfanswm ffioedd ar gyfer gwaith archwilio arall** | **£42,674** | **£47,837** |

Nodiadau:

[1] Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Hydref 2015.

[2] Yn daladwy rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016.

[3] Yn daladwy wrth i’r gwaith fynd rhagddo ac yn amodol ar lefel y profion sydd eu hangen.

[4] Yn daladwy wrth i’r gwaith fynd rhagddo - mae’r ffi yn seiliedig ar y ddealltwriaeth gyfredol o drosiant y cyrff yn unol â’n cyfundrefn sicrwydd cyfyngedig.

[5] Mae’r gostyngiad mewn ffioedd yn deillio o newid o ran y gofynion archwilio.

[1] Nid yw’r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, gan na chodir TAW arnoch bellach.

30. Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio ac, felly, y ffi os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn codi. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â Chyngor Gwynedd yn gyntaf.

31. Ceir rhagor o wybodaeth am fy ngraddfeydd ffioedd a'r broses o bennu ffioedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn: www.archwilio.cymru/cy/amdanom-ni/graddfeydd-ffioedd-gosod-ffioedd.

## Tîm archwilio

32. Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn Arddangosyn 9.

Arddangosyn 9: Fy nhîm

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Ariannol | 02920 320651 | derwyn.owen@archwilio.cymru |
| Jane Holownia | Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Perfformiad | 02920 320565 | jane.holownia@archwilio.cymru |
| Amanda Hughes | Rheolwr Archwilio Ariannol | 07969 919986 | amanda.hughes@archwilio.cymru |
| Huw Lloyd Jones | Rheolwr Archwilio Perfformiad | 07813 822017 | huw.lloydjones@archwilio.cymru |
| Nigel Griffiths | Arweinydd Archwilio Perfformiad | 07798 503065 | nigel.griffiths@archwilio.cymru |

33. Gallaf gadarnhau bod aelodau fy nhîm yn annibynnol ar Gyngor Gwynedd a'ch swyddogion. At hynny, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi dynnu eich sylw ato.

## Amserlen

34. Byddaf yn cyflwyno adroddiadau, neu allbynnau eraill y cytunwyd arnynt, i Gyngor Gwynedd sy'n ymdrin â'r meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon. Nodir fy ngherrig milltir allweddol yn Arddangosyn 10.

Arddangosyn 10: Amserlen

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Allbwn terfynol* |
|---|---|---|
| Cynllun Archwilio 2015 | Tachwedd 2014 – Ionawr 2015 | Mai 2015 |
| **Gwaith cyfrifon ariannol:**<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol | Chwefror – Medi 2015 | Medi 2015<br><br>Medi 2015 |
| **Gwaith perfformiad:**<br>• Archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor<br>• Archwiliad o Asesiad o Berfformiad y Cyngor<br>• Adolygiad o drefniadau rheoli ariannol<br>• Adolygiadau llywodraethu<br>• Adolygiadau rheoli perfformiad | • Mehefin – Gorffennaf 2015<br>• Hydref – Tachwedd 2015<br>• Tachwedd – Rhagfyr 2015<br>• Ebrill – Rhagfyr 2015<br>• Ebrill – Rhagfyr 2015 | • Gorffennaf 2015<br>• Tachwedd 2015<br>• Ionawr 2016<br>• Ionawr 2016<br>• Ionawr 2016 |
| Adroddiad Gwella Blynyddol | • Chwefror – Mawrth 2016 | • Ebrill 2016 |
| Cynllun Archwilio 2016 | • Tachwedd 2015 – Ionawr 2016 | • Mawrth 2016 |

** Yn amodol ar gymeradwyaeth amserol o'r canfyddiadau drafft gyda Chyngor Gwynedd.*

# Atodiad 1

## Priod gyfrifoldebau

### Archwilio ariannol

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fy mhwerau a'm dyletswyddau i gynnal eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar y canlynol:

- Eu 'cywirdeb a'u tegwch', gan roi sicrwydd eu bod:
  - yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
  - yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; ac
  - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.
- Cysondeb y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol â'r datganiadau ariannol.

Mae'n rhaid i mi hefyd ddatgan drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion, os na chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir, os na wnaed y datgeliadau gofynnol ar gyfer cydnabyddiaeth a thrafodion eraill neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi asesu p'un a yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Er mwyn cyflawni hyn, ystyriaf y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd, fel y nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'm hadroddiad cysylltiedig;
- canlyniadau gwaith arall a wnaed gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ardystiadau o hawliadau a ffurflenni, ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bo hynny'n berthnasol i'm cyfrifoldebau; ac
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion nas cwmpesir gan yr uchod, ac yr wyf o'r farn ei fod yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd a dogfennau cysylltiedig, gofyn cwestiynau i mi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon. Rhaid i mi hefyd ystyried pa un a ddylwn lunio adroddiad, er budd y cyhoedd, ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw wrth i mi gynnal yr archwiliad.

Nid yw fy ngwaith archwilio yn rhyddhau rheolwyr, na’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu, o’u cyfrifoldebau sy’n cynnwys:

- paratoi’r datganiadau ariannol a’r Adroddiad Blynyddol yn unol â safonau a chanllawiau cyfrifyddu cymwys;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol; a
- sicrhau gwerth am arian o ran y defnydd o adnoddau.

Mae’r rheolwyr yn cytuno i roi’r canlynol i mi:

- mynediad i’r holl wybodaeth y mae’r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy’n berthnasol i’r gwaith o baratoi’r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gallaf ofyn amdani gan y rheolwyr er mwyn cynnal yr archwiliad; a
- mynediad anghyfyngedig i unigolion o fewn Cyngor Gwynedd y byddaf yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt.

Bydd angen i’r rheolwyr roi datganiadau ysgrifenedig i mi er mwyn cadarnhau’r canlynol:

- eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer paratoi’r datganiadau ariannol;
- bod pob trafodyn wedi’i gofnodi ac wedi’i adlewyrchu yn y datganiadau ariannol;
- bod y wybodaeth a roddwyd i mi er mwyn cynnal yr archwiliad yn gyflawn; ac
- ategu tystiolaeth archwilio arall sy’n berthnasol i’r datganiadau ariannol neu honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os ystyriaf fod hynny’n angenrheidiol neu os yw’n ofynnol o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio.

## Archwilio perfformiad

Mae’r Mesur yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i ’wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau’. Mae hefyd yn gosod gofynion penodol ar awdurdodau i bennu amcanion gwella, ac i gyhoeddi cynlluniau gwella blynyddol ac asesiadau o berfformiad. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae’r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal asesiad gwella ar gyfer pob awdurdod gwella bob blwyddyn, er mwyn pennu a yw’r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â’i ddyletswydd gyffredinol a gofynion y Mesur. Rhaid i mi hefyd gynnal archwiliadau i nodi pa un a yw’r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran gwella, cynllunio ac adrodd.

Er mwyn cyflawni gofynion y Mesur, rwyf yn cynnal asesiadau corfforaethol rheolaidd o bob awdurdod gwella. Ers 2013-14, rwyf wedi ymgymryd â’r rhaglen hon o asesiadau corfforaethol ar sail gylchol. Ar hyn o bryd, rwyf wedi cytuno â Llywodraeth Cymru y gallaf ddefnyddio’r grant a gaf gan Lywodraeth Cymru i ariannu’r asesiad corfforaethol. Mae hyn yn golygu, yn ogystal ag asesiad gwella a gwaith archwilio a ariennir gan ffi, y bydd pob awdurdod yn cael asesiad corfforaethol manwl unwaith yn ystod cyfnod o bedair blynedd. Yn y cyfamser, byddaf yn cynnal trosolwg llai manwl o ddatblygiadau a’r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod.

Os daw unrhyw faterion o bryder neu faterion â blaenoriaeth i'r amlwg, mae gennyf yr hyblygrwydd i gynnal asesiadau corfforaethol yn amlach.

O dan rai amgylchiadau, gallaf hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gallaf eu cyhoeddi (o dan adran 22). Byddaf yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Yn ogystal â'm rhaglen o waith archwilio ac asesu o dan y Mesur, rwyf yn ymgymryd â rhaglen o astudiaethau llywodraeth leol fel sy'n ofynnol o dan adrannau 41 a 42 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ni chaiff y gwaith hwn ei gynnwys o fewn y ffi archwilio perfformiad lleol, ond fe'i cynhwysir o fewn amcangyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru.

# Atodiad 2

## Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Efallai y bydd gan Gyngor Gwynedd hefyd ddiddordeb yn yr archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol a gynhelir gennyf, y bydd rhai ohonynt yn arbennig o berthnasol i lywodraeth leol, ac efallai'n cynnwys casglu tystiolaeth ar draws llywodraeth leol. Ariennir yr astudiaethau hyn gan y Cynulliad Cenedlaethol ac fe'u cyflwynir i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i'w helpu i graffu ar wariant cyhoeddus.

Mae'r tabl isod yn cwmpasu'r holl waith mewn perthynas ag astudiaethau gwerth am arian sydd ar y gweill ar hyn o bryd, er bod rhywfaint o'r gwaith hwn yn dal i fod ar gam datblygu cynnar. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys crynodebau Cymru gyfan o'r gwaith archwilio a wnaed yn lleol yn y GIG ac archwiliadau ymatebol o feysydd penodol sy'n peri pryder i'r cyhoedd a godwyd â mi. Maes o law, byddaf yn ystyried ac yn ymgynghori ar feysydd pwnc posibl ar gyfer astudiaethau gwerth am arian yn y dyfodol i'w rhoi ar waith, ac o bosibl mewn rhai achosion yn cyflwyno adroddiadau arnynt, yn 2015-16.

Cyflwynir adroddiadau diweddaru pellach ar fy rhaglen o astudiaethau gwerth am arian i chi o fewn yr adroddiadau cynnydd rheolaidd a baratoir gan fy nhîm.

| Pwnc | Amserlen gyhoeddi ddisgwyliedig |
|---|---|
| Rhagnodi gan feddygon teulu | Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2015 |
| Buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru mewn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf | Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2015 |
| Consortia addysg rhanbarthol | Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2015 |
| Camau Llywodraeth Cymru i gaffael Maes Awyr Caerdydd | Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2015 |
| Gwasanaethau rheilffyrdd | Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2015 |
| Gwasanaethau orthopedig | Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2015 |
| Rhestrau aros y GIG a phractisau preifat | Haf 2015 |
| Darlun o wasanaethau cyhoeddus | Hydref 2015 |
| Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru | Hydref 2015 |

| Pwnc | Amserlen gyhoeddi ddisgwyliedig |
|---|---|
| Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio[2] | I’w gadarnhau |
| Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru[3] | I’w gadarnhau |
| Rheoli llifogydd a’r risg o erydu (yn debygol o ganolbwyntio ar lifogydd arfordirol) | I’w gadarnhau |
| Ymyrraeth gynnar a newid ymddygiad y cyhoedd[4] | I’w gadarnhau |
| Ymyriadau Llywodraeth Cymru mewn llywodraeth leol[5] | I’w gadarnhau |
| Ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion archwilio | I’w gadarnhau |
| Caffael cyhoeddus a’r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol | I’w gadarnhau |

[2] Yn ystod y broses glirio, mae’r amserlen gyhoeddi yn ansicr am resymau sy’n benodol i’r prosiect.

[3] Yn ystod y broses glirio, mae’r amserlen gyhoeddi yn ansicr am resymau sy’n benodol i’r prosiect.

[4] Yn y byrdymor, bydd y gwaith o lunio adroddiad newydd i roi darlun o wasanaethau cyhoeddus yn cael blaenoriaeth dros y gwaith hwn. Fodd bynnag, mae’r adroddiad i roi darlun o wasanaethau cyhoeddus yn debygol o adlewyrchu’r themâu hyn mewn rhyw ffordd. Bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn ystyried cyfleoedd i fwrw ymlaen â gwaith yn y maes hwn fel rhan o’n rhaglen i gyfnewid arfer da.

[5] Mae’r cynlluniau ar gyfer y gwaith hwn yn cael eu hailystyried yng ngoleuni’r adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o ymyriadau Ynys Môn ac er mwyn ystyried unrhyw oblygiadau ehangach sy’n deillio o raglen ddiwygio llywodraeth leol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk